**EITEM AR YR AGENDA: 14**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Rhagfyr 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cael yr Aelodau i gymeradwyo, mewn egwyddor, werthu Pencadlys Rhanbarth y Dwyrain yn Ffordd Maesgwyn, Wrecsam |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 27ain Hydref 2003 cymeradwyodd yr Aelodau y Cynllun Integredig Rheoli Risg, yn amodol ar ymgynghoriad. Felly, maent wedi cymeradwyo, mewn egwyddor, ailstrwythuro o dair Rhanbarth weithredol i saith ardal gymunedol (fel yr Awdurdodau Unedol, ac eithrio Gwynedd, lle bydd dwy ardal).

2. **GWYBODAETH**

2.1 Cynigwyd yn ardal Rhanbarth y Dwyrain, sy'n ymorol am Sir y Fflint a Wrecsam, bod dwy swyddfa'n cael eu sefydlu, i ymorol am y ddwy sir, yn ddelfrydol yn swyddfeydd yr Awdurdodau Unedol a/neu ar leoliadau ar y Stryd Fawr, i gysylltu'n agos â gwasanaethau eraill a sefydlu unedau darparwyr gwasanaethau ar y cyd.

2.2 Yn y pen draw byddai hyn yn arwain at gael gwared ar adeilad pencadlys Rhanbarth y Dwyrain yn Ffordd Maesgwyn, Wrecsam, gan na fyddai ei angen mwyach.

2.3 Daeth datblygwr lleol atom a holi am gael prynu'r safle ar Ffordd Maesgwyn er mwyn ei wneud yn rhan o ddatblygiad mwy a fydd yn digwydd, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, gyda'r safle neu hebddo.

2.4 Yn wreiddiol, y Gwasanaeth Achub Cloddfeydd oedd yn defnyddio Pencadlys Rhanbarth y Dwyrain a chafodd ei brynu gan Awdurdod Tân Clwyd, yn bennaf oherwydd bod yno siambrau gwres a lleithder, darlithfa, ystafell gypyrddau a thramwyfa gropian gydag offer anadlu. Datblygwyd ac ehangwyd y nodweddion yma dros nifer o flynyddoedd, ond ni chânt eu defnyddio bellach oherwydd y newid yn y dulliau o hyfforddi a bod cyfleusterau ar gael mewn llefydd eraill.

2.5 Does dim amheuaeth na fyddai'r Awdurdod yn cael mwy o arian amdano nawr yn hytrach na phe byddid yn ei roi ar y farchnad agored. Byddai'r farchnad am adeilad o'r math yma'n un gyfyngedig iawn a byddai angen gwaith ailddatblygu sylweddol arno i'w wneud yn ymarferol at ddibenion arferol.

2. **GWYBODAETH** *(parhad)*

2.6 Bydd y Prisiwr Dosbarth a'r sector breifat yn prisio'r adeilad er mwyn gofalu bod y pris a geir yn uwch na'r amcanbris o'i werthu ar y farchnad agored, ac y byddwn yn cael y cyfalaf mwyaf posib amdano. Bydd y pris a geir o werthu'r safle yn cael ei adrodd i'r Awdurdod neu'r Panel Gweithredol maes o law.

2.7 Ni fydd neb yn colli eu swyddi, a bydd y staff cynnal di-lifrai'n dal i weithio o fewn yr un ardal. Byddwn yn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar y staff lifrai a bydd llawer o swyddogion yn teithio siwrnai fyrrach i'w swyddfeydd.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r hyn sydd uchod, ac yn cymeradwyo, mewn egwyddor, werthu'r safle.